

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
26/09/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Hybu Masnach Deg
Promoting Fair Trade

Q12 Jeff Cuthbert: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's role to promote fair trade? OAQ1816(FM)

The First Minister: We are working closely with the Wales Fair Trade Forum to meet the criteria for making Wales a fair trade country. Wales and Scotland have agreed joint criteria and I was able to announce them along with Jack McConnell on the first anniversary of the G8 summit in Gleneagles in July.

C12 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu masnach deg? OAQ1816(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gweithio'n agos gyda Fforwm Masnach Deg Cymru i fodloni'r meini prawf ar gyfer gwneud Cymru'n wlad fasnach deg. Mae Cymru a'r Alban wedi cytuno ar feini prawf a gellais eu cyhoeddi gyda Jack McConnell flwyddyn ar ôl yr uwchgynhadledd G8 yn Gleneagles ym mis Gorffennaf.

Ymrwymiad i bobl Anabl
Commitment to the Disabled

Q13 Jonathan Morgan: Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's commitment to the disabled? OAQ1822(FM)

The First Minister: From 4 December, the disability equality duty, requiring public authorities to promote disability equality, comes into force. The Welsh Assembly Government has developed its draft scheme, which has now been published for public consultation.

C13 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i bobl anabl? OAQ1822(FM)

Y Prif Weinidog: O 4 Rhagfyr, bydd dyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl, yn dod i rym. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu cynllun drafft, sydd erbyn hyn wedi'i gyhoeddi i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.

Gwella Gwasanaethau Iechyd
Improving Health Services

Q14 Denise Idris Jones: Will the First Minister make a statement about improving health services in Wales? OAQ1834(FM)

The First Minister: Recent years have seen a significant improvement in the way NHS hospital services are planned, delivered and

C14 Denise Idris Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella gwasanaethau iechyd yng Nghymru? OAQ1834(FM)

Y Prif Weinidog: Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd gwelliant sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau ysbyty'r GIG eu

managed. One of our prime aims is to continue to reduce waiting times and improve patient access. We are also tackling health inequalities, increasing capacity, supporting NHS staff and dealing with emergency pressures.

cynllunio, eu darparu a'u rheoli. Un o'n prif nodau yw parhau i leihau amseroedd aros a gwella mynediad i gleifion. Yr ydym hefyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, cynyddu capasiti, cefnogi staff y GIG a delio â phwysau argyfwng.

Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus Improving Public Services

C15 Rhodri Glyn Thomas: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y chwe mis nesaf? OAQ1815(FM)

Q15 Rhodri Glyn Thomas: What plans does the First Minister have to improve public services during the next six months? OAQ1815(FM)

Y Prif Weinidog: Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar agenda Llywodraeth y Cynulliad. Yn ddiweddar, yr wyf wedi nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn adroddiad Prif Weinidog Cymru. Byddwn hefyd yn ymateb yn ddiweddar yn ystod yr hydref i'r her a gyflwynwyd gan Syr Jeremy Beecham i roi hwb pellach a chyflymach i'n gwaith o ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus, a nodir yn 'Creu'r Cysylltiadau'.

The First Minister: Improving public services continues to be a top priority for the Assembly Government. I have reported recently on the achievements in my First Minister's report. We shall also be responding later in the autumn to the challenge from Sir Jeremy Beecham to drive our 'Making the Connections' public-service reforms faster and further.